
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	13.11.2020
Pwnc / Subject:	Ymgynghoriad ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch a Chymhwyster Uwch Bagloriaeth Cymru

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Mae Estyn yn cefnogi datblygiadau i symleiddio agweddau ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch, er ein bod yn pryderu am y cynllun arfaethedig i gollu brand Bagloriaeth Cymru. Bu hon yn agwedd unigryw ar gynnis addysg Cymru i ddysgwyr 14-19 oed am dros 15 mlynedd, a byddem yn croesawu trafodaeth bellach am y mater hwn. Yn benodol, rydym yn pryderu am y modd y mae'r ymgynghoriadau diweddar ar gymwysterau newydd a Bagloriaeth Cymru yn gweddu i weledigaeth strategol gydlynus ar gyfer dilyniant dysgwyr o'r Cwricwlwm i Gymru i'r Cwricwlwm 16-19 a diwygiadau i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Diben Cymhwyster Uwch Bagloriaeth Cymru oedd darparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer dysgwyr 16-19 mlwydd oed mewn ysgolion a cholegau.

Rydym yn cefnogi llawer o'r cynigion a wnaed fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Rydym yn croesawu'r cynigion:

- bod y Dystysgrif Sgiliau Uwch yn dod yn gymhwyster annibynnol
- na fydd y cymhwyster newydd yn dibynnu ar ddeilliannau canlyniadau mewn pynciau eraill
- bod ffocws ar ddatblygu medrau gydol oes ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant yn y dyfodol
- bod nifer yr elfennau yn llai yn y cymhwyster newydd
- bod ffocws ar fedrau annatod

Mae Estyn wedi nodi nifer o ystyriaethau, sef:

- mwy o ystyriaeth i'r modd y bydd y cymhwyster hwn yn hyrwyddo datblygu ac asesu medrau dysgwyr. Yn benodol, asesu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol;
- ni ddylid lleihau cyfleoedd i ddatblygu medrau menter a chyflogadwyedd fel rhan o'r newid hwn i'r cymhwyster
- dylid disgwyl i ddysgwyr lwyddo ym mhob elfen o'r cymhwyster hwn er mwyn ennill gradd gyffredinol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn Ymgynghori 1

Dylid diddymu fframwaith Cymhwyster Uwch Bagloriaeth Cymru, er mwyn gallu canolbwyntio ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch fel cymhwyster annibynnol.

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnis hwn?

- Yn cytuno'n rhannol ac yn anghytuno'n rhannol

B) Esboniwch eich ateb yn y gofod isod

Er bod Estyn yn cefnogi'r cynnis i gryfhau'r ffocws ar ddatblygu medrau dysgwyr trwy symleiddio agweddau ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch, rydym yn bryderus am y cynllun arfaethedig i gollu brand Bagloriaeth Cymru. Bu hon yn agwedd unigryw ar gynnis addysg Cymru ar gyfer dysgwyr 14-19 oed am dros 15 mlynedd, a byddem yn croesawu trafodaeth bellach am y mater hwn. Yn benodol, rydym yn pryderu am y modd y mae'r

ymgyngoriadau diweddar ar gymwysterau newydd a Bagloriaeth Cymru yn gweddu i weledigaeth strategol gydlynus ar gyfer dilyniant dysgwyr o'r Cwricwlwm i Gymru i'r Cwricwlwm 16-19 a diwygiadau i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Diben Cymhwyster Uwch Bagloriaeth Cymru oedd darparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer dysgwyr 16-19 mlwydd oed mewn ysgolion a cholegau.

Rydym yn cefnogi'r cynnig na fydd y cymhwyster newydd yn dibynnu ar ddeilliannau canlyniadau mewn pynciau eraill. Cefnogir y pwyslais ar ddatblygu medrau dysgwyr yn y Dystysgrif Her Sgiliau. Credwn y gallai hyn ddarparu cyfle defnyddiol i hyrwyddo datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol a medrau ehangach dysgwyr, fel datrys problemau a datblygiad personol.

Cwestiwn Ymgynghori 2

Dylid sicrhau mai diben y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch yw galluogi dysgwyr i ddatblygu a chymhwyso medrau mewn cyd-destunau perthnasol i baratoi ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithredol.

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Yn cytuno

B) Esboniwch eich ateb yn y gofod isod

Mae Estyn yn cefnogi'r cynnig hwn ar y cyfan, a chredwn ei bod yn bwysig fod y cymhwyster hwn yn annog datblygu'r medrau pwysig hyn. Wrth gynllunio'r cymhwyster hwn, mae angen caniatáu digon o hyblygrwydd i ddysgwyr sy'n dilyn ystod eang o raglenni, gan gynnwys rhaglenni galwedigaethol, arddangos eu medrau trwy gyd-destunau a gweithgareddau ystyrion.

Fel rhan o'r broses gynllunio, bydd angen rhoi arweiniad digonol i athrawon gynllunio gweithgareddau. Mae angen i fecanweithiau ar gyfer 'cymeradwyo' gweithgareddau fod yn effeithlon, ac osgoi rhoi baich diangen ar athrawon a chanolfannau. Pan fydd modd, dylai'r cymwysterau newydd adeiladu ar waith y Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig datblygu'r pedwar diben.

Credwn y dylid rhoi mwy o ystyriaeth ynglŷn â sut bydd y cymhwyster hwn yn hyrwyddo datblygiad medrau dysgwyr. Yn benodol, bydd ystyriaeth am y modd y bydd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol dysgwyr, yn ogystal â'r medrau hanfodol y sonnir amdanynt yn y cynnig, yn cael eu datblygu. Pan fydd modd, dylid datblygu'r medrau hyn trwy roi profiadau ystyrion i ddysgwyr. Dylid annog ysgolion i sicrhau bod profiadau yn gysylltiedig â gwaith yn adeiladu ar ddiddordebau a dyheadau gyrfa dysgwyr. Dylai pwysleisio pwysigrwydd partneriaethau gyda chyflogwyr a gyda darparwyr galwedigaethol gefnogi hyn ymhellach.

Cwestiwn Ymgynghori 3

I baratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithredol, dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu ac arddangos eu medrau mewn cyd-destunau yn seiliedig ar Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig a nodau lles.

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Yn cytuno

B) Esboniwch eich ateb yn y gofod isod

Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn. Mae'n cysylltu'n dda â datblygiadau'r Cwricwlwm i Gymru, a bydd yn adeiladu ar waith canolfannau i hyrwyddo a datblygu'r pedwar diben. Dylai'r elfen hon annog ysgolion i hyrwyddo cynaliadwyedd a chefnogi pobl ifanc yn dda.

Cwestiwn Ymgynghori 4

Dylid diwygio strwythur y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch i gynnwys leihau nifer yr elfennau o 3 i 4. Dyma'r 3 elfen y dylid eu cynnwys yn y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch:

Elfen 1 – Prosiect Cymuned Fyd-Eang

Elfen 2 – Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol

Elfen 3 – Prosiect Unigol

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Yn cytuno'n rhannol ac yn anghytuno'n rhannol

B) Esboniwch eich ateb yn y gofod isod

Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi lleihau nifer yr elfennau yn y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch. Mae hyn yn debygol o fod yn gliriach ar gyfer dysgwyr, a bydd yn galluogi canolfannau i ganolbwyntio ar yr agweddau pwysig hyn yn agosach. Yn ychwanegol, bydd hyn yn lleihau dyblygu o Fagloriaeth Cymru Lefel 2.

Gwerthfawrogir elfen fenter y cymhwyster hwn, yn enwedig gan ddysgwyr galwedigaethol. Trwy ein gwaith thematig, rydym wedi awgrymu bod angen canolbwyntio'n gynyddol ar ddatblygu medrau menter a chyflogadwyedd dysgwyr. Bydd angen ystyried hyn pan gaiff y cymhwyster Lefel 2 ei gynllunio i sicrhau nad yw'r agwedd hon yn cael ei cholli'n gyfan gwbl. Gallai fod yn fuddiol ystyried cynnwys yr agwedd hon yn y ddau gymhwyster. Yn y cymhwyster Uwch, gallai fod yn werth chweil ystyried llwybrau gyrfu dysgwyr mewn colegau ac ysgolion fel rhan o brosiect cyrchfannau'r dyfodol, gyda chysylltiadau agosach â chyflogwyr a'r gymuned leol.

Cwestiwn Ymgynghori 5

Dylai tair elfen y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd gyfrannu at y cymhwyster cyffredinol fel a ganlyn:

Prosiect Cymuned Fyd-Eang – 25%
Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol – 25%
Prosiect Unigol – 50%

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Yn cytuno

B) Esboniwch eich ateb yn y gofod isod

Credwn y dylai'r agweddau pwysig hyn barhau i fod yn rhan sylfaenol o'r cymhwyster hwn. Rydym yn croesawu'r strwythur awgrymedig ac yn credu y bydd rhoi mwy o bwyslais ar y prosiect unigol yn rhywbeth cadarnhaol i ddysgwyr.

Dymunwn nodi y bydd angen i unrhyw fanylebau cynllunio sicrhau bod y prosiectau hyn yn briodol heriol a'u bod yn dangos yn glir sut bydd medrau dysgwyr yn cael eu hasesu.

Cwestiwn Ymgynghori 6

Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ganolbwyntio ar asesu Medrau Annatod, sef: Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, Creadigrwydd ac Arloesi, Cynllunio a Threfnu ac Effeithiolrwydd Personol.

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Yn cytuno'n rhannol ac yn anghytuno'n rhannol

B) Esboniwch eich ateb yn y gofod isod

Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi'r cynnig hwn, er ein bod hefyd yn credu ei bod yn bwysig rhoi pwyslais ar lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

O ran asesu medrau yn y cymhwyster hwn, mae'n bwysig fod arweiniad yn cael ei ddatblygu i egluro'r disgwyliadau ar gyfer y medrau hyn, ac amlinellu sut gellir eu hasesu. Bydd hyn yn cynorthwyo athrawon i roi pwyslais addas ar ddatblygu medrau dysgwyr. Yn ychwanegol, os na chaiff medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol eu hasesu fel rhan o'r cymhwyster hwn, gellir eu hesgeuluso / gellir eu hystyried yn ddi-bwys ar gyfer dilyniant dysgwyr. Mae tystiolaeth arolygu yn awgrymu nad yw'r medrau hyn yn aml yn cael eu datblygu'n dda fel rhan o'r addysgu a'r dysgu mwy cyffredinol o fewn cymhwyster presennol Bagloriaeth Cymru.

Cwestiwn Ymgynghori 7

Dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd a'u cymhwysedd digidol. Ni ddylai'r medrau hyn fod yn ddeilliannau dysgu drwy eu hawl eu hunain, ac ni ddylid asesu dysgwyr arnynt yn uniongyrchol.

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Yn cytuno'n rhannol ac yn anghytuno'n rhannol

B) Esboniwch eich ateb yn y gofod isod

Credwn y dylid asesu'r medrau pwysig hyn fel rhan o'r cymhwyster. Fodd bynnag, dylid ymgorffori'r rhain, ac nid eu cyflwyno fel asesiadau neu dasgau ar eu pen eu hunain.

Bydd y prosiectau unigol yn rhoi cyfle defnyddiol i ganolfannau alluogi dysgwyr i gymhwyso a datblygu'r medrau hyn. Hoffai Estyn nodi y dylai unrhyw asesiad o'r medrau hyn fod yn ddigon heriol a dangos dilyniant.

Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd yn bwysig fod arweiniad yn darparu eglurder ynglŷn â sut bydd y medrau hyn yn cael eu hasesu.

Cwestiwn Ymgynghori 8

Dylai pob elfen o'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd asesu pob un o'r pedwar Medr Annatod. Gellid pwysoli pob medr yn wahanol ar lefel elfen, ond rhaid i bob medr gyfrannu'n gyfartal at y cymhwyster cyffredinol.

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Yn cytuno'n rhannol ac yn anghytuno'n rhannol

B) Esboniwch eich ateb yn y gofod isod

Mae Estyn yn cefnogi'r cynnig y dylai'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd asesu pob un o'r pedwar medr annatod. Bydd hyn yn annog canolfannau i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu a chymhwyso'r medrau hyn ar draws pob elfen.

Fodd bynnag, byddai pwysoli'r medrau hyn ym mhob un o'r elfennau o bosibl yn ddrislyd ac yn anymarferol. Byddai'n anodd iawn i athrawon feintoli cyfran pob un o'r medrau hyn a ddefnyddir mewn unrhyw dasg benodol.

Cwestiwn Ymgynghori 9

Dylid parhau i roi gradd A*- E i'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd.

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Yn cytuno'n gryf

B) Esboniwch eich ateb yn y gofod isod

Mae Estyn yn cefnogi'r cynnig hwn yn llawn gan y byddai'n parhau i fod yn unol â'r system raddio bresennol ar gyfer Safon Uwch, a byddai'n glir ar gyfer yr holl randdeiliaid. Hefyd, byddai'n gwneud y cymhwyster hwn yn gyfartal â chymwysterau eraill Safon Uwch. Hefyd, mae graddio'r cymwysterau yn helpu cymell a chefnogi dysgwyr.

Cwestiwn Ymgynghori 10

Dylai dysgwyr allu ennill gradd ar lefel cymhwyster heb orfod llwyddo ym mhob elfen o'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd. Er tegwch, dylai fod gan ddysgwyr hawl o hyd i ailsefyll unwaith fesul elfen, a dylai'r radd uchaf a gyflawnir ar gyfer yr elfen honno gyfrif tuag at radd y cymhwyster.

A) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

- Yn cytuno'n rhannol ac yn anghytuno'n rhannol

B) Esboniwch eich ateb yn y gofod isod

Rydym yn cefnogi'r cynnig y dylai fod gan ddysgwyr hawl i ailsefyll unwaith fesul elfen. Mae hyn yn bwysig i bob dysgwr, a bydd yn sicrhau bod y system yn deg.

Rydym yn cefnogi'r cysyniad o asesiad cydadferol yn y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, credwn y dylai fod yn ofynnol i ddysgwr lwyddo ym mhob elfen, ar lefel isafswm, er mwyn cael gradd gyffredinol.

Os byddwn ni'n bwrw ymlaen â'r cynlluniau hyn ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd, efallai y bydd angen enw neu deitl newydd ar hyn. Ni allwn wneud y penderfyniad hwn nawr, ond hoffem glywed eich barn.

Beth ddylem ni ei enwi, yn eich barn chi?

Tystysgrif Sgiliau Uwch Cymru **Advanced Skills Certificate Wales**

Sgiliau Uwch Cymru **Advanced Skills Wales**

Diploma Sgiliau Uwch Cymru **Advanced Skills Diploma Wales**

Credwn y byddai'r cynigion hyn:

- yn rhoi anghenion dysgwyr yn gyntaf
- yn gwella ymgysylltiad dysgwyr
- yn lleihau asesu, ac yn osgoi dyblygu gwaith

- yn gwneud y cymhwyster yn fwy hylaw
- yn cadw maint a gwerth y cymhwyster
- yn helpu dysgwyr i ddewis eu meysydd astudio eu hunain i ganolbwyntio arnynt
- yn hyrwyddo lles dysgwyr, nawr ac yn y dyfodol
- yn cynorthwyo dysgwyr i osod nodau a pharatoi ar gyfer bywyd
- yn hyrwyddo hawliau dysgwyr trwy Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) trwy roi cyfleoedd iddynt fod yn ddinasyddion mwy hyderus a gwybodus.

Beth yw eich barn chi?

Yn gyffredinol, rydym yn cytuno â'r datganiad hwn.

Mae'n bwysig fod digon o hyblygrwydd wrth gynllunio'r elfennau er mwyn galluogi dysgwyr galwedigaethol, yn arbennig, i ennill y cymhwyster. Bydd hyn yn helpu sicrhau tegwch a chyfiawnder i bawb, a pharhau i roi anghenion pob dysgwr yn gyntaf.

Cwestiwn Ymgynghori:

Rydym yn credu y byddai'r cynigion hyn:

- yn gwneud yn siŵr fod dysgwyr o wahanol gefndiroedd daearyddol (er enghraifft, dysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig) yn cael yr un cyfleoedd i elwa ar y mewnbyn y gall cyflogwyr a sefydliadau ei gynnig
- yn gwneud yn siŵr fod pob dysgwr yn cael yr un cyfleoedd i ganolbwyntio ar weithgarwch cymunedol, a pharatoi ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol
- yn helpu dysgwyr o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol i elwa ar gymorth ac arweiniad yn eu dysgu
- yn helpu dysgwyr i ganolbwyntio ar ddinasyddiaeth weithredol ac ymgymryd â materion sy'n effeithio ar eu bywydau, eu teuluoedd, eu cymuned, Cymru a'r byd
- yn helpu dysgwyr i ddeall gwahanol grwpiau cymdeithasol a diwylliannol fel eu bod yn dod yn ddinasyddion mwy goddefgar a gwybodus.

Beth yw eich barn chi?

Mae Estyn yn cytuno â'r sylwadau hyn ar y cyfan. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd y ffordd y caiff y cymhwyster ei gynllunio a'i ddefnyddio gan ganolfannau yn allweddol er mwyn sicrhau pob un o'r ffactorau hyn.

Dylid ystyried datblygu ymgyrch farchnata yn dangos diben a manteision y cymhwyster hwn i ddysgwyr, rhieni ac athrawon.

Credwn y byddai'r cynigion hyn:

- yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o statws swyddogol y Gymraeg fel rhan o'r nodau lles ar gyfer Cymru
- yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddysgu am y flaenoriaeth genedlaethol i hyrwyddo diwylliant Cymru a'r Gymraeg.

Beth yw eich barn chi?

Yn gyffredinol, mae Estyn yn cytuno y bydd y cynigion hyn yn cefnogi'r datblygiadau hyn. Fodd bynnag, bydd yn bwysig fod pob dysgwr a chanolfan yn gallu manteisio ar ddogfennau ac arweiniad dwyieithog. Mae'n hanfodol fod pob agwedd ar y cymhwyster, gan gynnwys deunyddiau cymorth, yn cael ei chynnig yn ddwyieithog.

Dylid cynnwys y gair 'Cymru' neu 'Cymraeg/Cymreig' yn y teitl i sicrhau ei fod yn frand sy'n unigryw i Gymru.